



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Cylchlythyr Gaeaf 2018





Dwi wrth fy modd o rannu'r rhifyn hwn o Gylchlythyr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru gyda chi. Gobeithio y bydd y cynnwys o ddiddordeb i chi ac yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol.

Rydym yn falch iawn o'n cyflawniadau ers ein lansiad yn 2014 yn helpu i wella bywydau plant, pobl ifanc a mabwysiadwyr ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud.

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd ffocws mawr ar leoli plant yn gyflym mewn cartrefi addas a sicrhau eu bod nhw a'u mabwysiadwyr yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ôl-leoli.

Rydyn ni'n gwybod bod cymorth mabwysiadu yn hanfodol i sicrhau llwyddiant lleoliadau, yn y dyddiau cynnar a thrwy gydol magwraeth y plentyn/person ifanc, Rydym yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi sut mae hwn yn yn dibynnu ar gwaith caled y mabwysiadwyr, y plant a'r bobl ifanc mabwysiedig a'r staff proffesiynol sy'n rhan o'u lleoliadau mewn perthynas â hyn.

Yn 2018 rydym wedi parhau i wella ein gwasanaethau a lansio mentrau newydd cyffrous fel y Fframwaith Gwaith Taith Bywyd, a'r cynllun Mabwysiadu Ynghyd sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, yn ogystal â chyrchu cofrestr fabwysiadu newydd ar gyfer Cymru.



Edrych ymlaen i 2019:

Mae 2019 yn addo bod yn flwyddyn gyffrous, gyda llawer o weithgareddau eisoes wedi'u trefnu ledled Cymru. Ein nod yw parhau i ganolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc drwy atgyfnerthu'r hyn rydym eisoes wedi'i wneud a meddwl yn ofalus am y math o wasanaeth mabwysiadu yr ydym eisiau ei gynnig. Drwy barhau i gynnwys plant, pobl ifanc a mabwysiadwyr yn ein gwaith cynllunio, rydym yn gobeithio adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma.

Byddwn yn gwthio am newidiadau cadarnhaol i'r gyfraith sy'n llywodraethu mabwysiadu yng Nghymru i symleiddio prosesau, sicrhau bod asesiadau mabwysiadwyr yn fwy amserol ac yn cael eu harwain yn fwy gan y mabwysiadwr ei hun, a gwella sgiliau proffesiynol i sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i bawb y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn lansio hyfforddiant ôl-gymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr.

Fel y gwnaethom eleni, bwriadwn barhau i wrando ar fabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc a fabwysiadwyd, a chynnal diwrnodau gweithgareddau mabwysiadui helpu teuluoedd i ddod o hyd i blant sy'n aros am leoliadau.

Mae'r bwlch rhwng nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu recriwtio a nifer y plant y mae angen lleoliadau mabwysiadol arnynt yn ehangu, sy'n golygu y bydd angen i'r rhanbarthau barhau i weithio'n galed i ddatblygu eu cynlluniau marchnata a recriwtio er mwyn sicrhau recriwtio gweithredol a pharhaus.

Yn y cyfamser, gobeithio y cewch chi Nadolig hyfryd a 2019 hapus a heddychlon!

Suzanne Griffiths

Cyfarwyddwr – Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol



Cip ar fabwysiadu yng Nghymru

Mae ein gwasanaeth yn parhau i wella, ac yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru wedi cyflawni'r canlynol:

300+

O BLANT WEDI'U LLEOLI
MEWN CARTREFI
MABWYSIADOL NEWYDD

CYMERADWYO GORCHMYNION
MABWYSIADU AR GYFER TUA
300 O BLANT, SY'N GOLYGU
BOD Y RHIANT/RHIENI
MABWYSIADOL YN DOD YN
RHIANT/RHIENI CYFREITHIOL
I'R PLENTYN AM OES



350 O BLANT ERAILL
YN BAROD I'W
PARU NEU
EU LLEOLI GYDA'U
RHIENI MABWYSIADOL



MWY NA 500 O BLANT

YN CAEL EU CEFNOGI
GAN EIN GWASANAETHAU

3370

O LYTHYRAU
WEDI'U CYFNEWID RHWNG
PERTHNASAU BIOLEGOL, RHIENI
MABWYSIADOL A PHLANT

CEFNOGWYD 320

O RIENI BIOLEGOL

CAFWYD 200+ O GEISIADAU AM
FYNEDIAD I GOFNODION GENEDIGAETH
A MWY NA 150 O GEISIADAU AM HELP I
GYSYLLTU Â THEULUOEDD BIOLEGOL



Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol

Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol 2018 oedd yr orau eto, gyda sylw'n cael ei roi i'r ymgyrch ar y teledu, y radio a'r wasg. Cafodd llawer o sŵn ei wneud drwy #CefnogiMabwysiadu ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

I ddechrau'r wythnos, buom yn gweithio gyda Chymdeithas Plant Dewi Sant a phartneriaid i lansio Mabwysiadu Ynghyd [dysgwch fwy am y prosiect ar dudalen 6].

Datganodd y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies, ei gefnogaeth i'r wythnos ar y cyfryngau cymdeithasol, yn y Senedd a thrwy ymweld â Tony a Mike, darpar rieni mabwysiadol sy'n rhan o Mabwysiadu Ynghyd.

Diolch i bawb a gymerodd ran a helpu i godi ymwybyddiaeth o fabwysiadu yng Nghymru.



Dyma uchafbwyntiau'r wythnos

YN Y NEWYDDION



AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL





Mabwysiadu Ynghyd

Beth yw Mabwysiadu Ynghyd?

Mae Mabwysiadu Ynghyd, a arweinir gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, yn fenter newydd i leoli'r plant sydd wedi bod yn aros hiraf gyda theulu parhaol.

Datblygwyd Mabwysiadu Ynghyd, y prosiect cyntaf o'r fath yn y DU, mewn ymateb i angen brys a nodwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) i ddatblygu a darparu dull mwy targedig o ddod o hyd i deuluoedd i blant ledled Cymru sydd wedi bod yn aros am amser hir am eu cartref oes.

Cafodd 10 o'r 11 o blant a gafodd eu cynnwys yn nigwyddiad proffilio a recriwtio Mabwysiadu Ynghyd ym mis Mehefin eu cysylltu â darpar rieni mabwysiadol.

Nod Mabwysiadu Ynghyd yw chwalu'r rhwystrau a all atal pobl rhag mabwysiadu plant sydd â blaenoriaeth. Mae'r prosiect yn cynnig asesiad a hyfforddiant arbenigol, ynghyd â rhaglen wedi'i theilwra o gymorth therapiwtig a chlinigol parhaus i'r mabwysiadwr a'r plentyn.

Fe'i darperir ar y cyd gan Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Dewi Sant, Barnardo's, AFA Cymru, After Adoption ac Adoption UK) gyda chymorth pellach gan bartneriaid therapiwtig, GMC drwy ei ranbarthau, 22 Awdurdod Lleol a Phrifysgol Caerdydd.

Mae Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth, a sefydlwyd i alluogi'r sefydliadau hyn i ymsefydlu arfer gorau, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Innovate UK.



Beth sy'n gwneud Mabwysiadu Ynghyd yn wahanol?

Mae'r model yn unigryw gan ei fod yn dod â phedair cydran allweddol ynghyd:

1. Recriwtio plentyn-benodol

Wedi'i anelu at y cyhoedd ehangach ynghyd â'r rheini sydd wedi datgan diddordeb mewn mabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys proffiliau a ffilmiau o blant sy'n aros am deulu parhaol ar hyn o bryd.

2. Cyfarfod 'Tîm y Plentyn'

Wedi'i hwyluso gan seicolegydd clinigol i gynnig trafodaeth feddylgar sy'n dod â'r holl wybodaeth rydym yn ei gwybod am y plentyn ynghyd, gan gynnwys profiad gofawyr maeth o ddydd i ddydd, gyda sylwadau seicolegol ar sut i atgyfnerthu'r bond rhwng rhiant a phlentyn. Mae hyn yn meithrin dealltwriaeth o'r cymorth fydd ei angen drwy'r daith fabwysiadu.

3. Sesiynau pontio strwythuredig a chyfaill Mabwysiadu Ynghyd

A Dull sy'n seiliedig ar chwarae (yn seiliedig ar Therachwarae, Seicotherapi Datblygiadol Dyadig a gwaith naratif) cyn, yn ystod ac ar ôl symudiad y plentyn o ofal maeth at fabwysiadwr i gefnogi'r broses bontio. Ochr yn ochr â hyn, bydd mabwysiadwr profiadol a hyfforddedig yn gweithio fel cyfaill.

4. Cymorth ymgynghoriad seicolegol dilynol

Ar ôl i'r plentyn symud i mewn gyda'i rieni mabwysiadol, cynhelir tri chyfarfod gyda'r rhieni i drafod a normaleiddio materion gan nodi cryfderau i barhau i ddatblygu strategaethau magu plant ar gyfer y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Mabwysiadu Ynghyd, ewch i adoptionwales.org/en/page/adopting-together



Llongyfarchiadau!
Mabwysiadu Ynghyd yn dod i'r brig yng Ngwobr Cymeradwyaeth Uchel am Fudd Cymdeithasol a Chymunedol Go Wales. Mae'r prosiect wedi'i enill gwobr genedlaethol y Sefydliad dros Gydweithredu.



**Mae Tony a Mike, 39 yn un o'r parau
o'r digwyddiad proffilio cyntaf. Dyma
ddywedodd Mike am eu profiad:**

“Rydym wedi cael profiad gwych gyda Dewi Sant, a thrwy fod yn rhan o'r prosiect Mabwysiadu Ynghyd. Roedd bod yn rhieni yn freuddwyd i ni, ac rydym wrth ein bodd o wireddu hynny o'r diwedd.

“Er ein bod ar ben ein digon o ddod yn rhieni, gall mabwysiadu plentyn fod yn broses anodd, felly mae'r cymorth rydym wedi'i gael wedi bod yn amhrisiadwy. Mae Mabwysiadu Ynghyd wedi rhoi cyfle i ni glywed am ein mab bach newydd gan y rheini sy'n ei nabod orau, ac rydym wedi cael cyngor a chymorth yn seiliedig ar ei anghenion.

“Mae'n wych gwybod y bydd y cymorth hwn yn parhau ar ôl mabwysiadu hefyd, fel y gallwn sicrhau ein bod yn rhoi'r bywyd gorau posibl iddo.

“Dwi'n troi'n 40 eleni, a galla i ddim aros i ddeffro i garden yn dweud 'Penblwydd Hapus Dad'”.



Gwrando arnoch chi

Diolch am ddweud eich barn wrthym drwy 'Llais y Mabwysiadwr'.

Fe ddechreuom y cynllun hwn fel bod gennym ffordd barhaus o glywed yr hyn sy'n bwysig i fabwysiadwyr. Mae eich adborth yn cael ei adrodd i Dimau/Gwasanaethau Mabwysiadu a'u byrddau rheoli ledled Cymru yn ogystal â Grŵp Cynghori a Bwrdd Llywodraethu Cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu.

Byddwn yn parhau i wneud pethau eraill fel cynnal grwpiau a digwyddiadau yn ogystal â'ch cynnwys mewn camau i wella'r gwasanaethau. Diben y diweddariad hwn yw rhoi gwybod ichi beth sy'n digwydd am y pethau a godwyd trwy Llais y Mabwysiadwr yn 2017/18.



Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Gwrando arnoch chi



Phil Hodgson



Suzanne Griffiths



Cllr Geraint Hopkins

Yr hyn a ddywedoch

Yn gyffredinol, mae'r **RECRIWTIO** yn gyflym ac yn hawdd ond mewn nifer fechan o achosion, nodwyd y canlynol:

- Cyfathrebu gwael yn enwedig ynghylch graddfeydd amser
- Newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol
- Diffyg paratoi dogfennau'n iawn

Mae **HYFFORDDIANT PARATOI** yn gyffredinol, yn iawn ac yn effeithiol ac mae'n gyfle da i gwrrdd ag eraill sy'n mabwysiadu. Gwnaed rhai awgrymiadau, sef:


- Gwella cynnwys yr hyfforddiant paratoi

CYDWEDDU A LLEOLI adroddwyd bod hyn yn cael ei rheoli'n dda, er, amlygwyd y canlynol:

- Mae weithiau'n teimlo'n 'drafodaethol' ac yn esgeuloso'r ochr emosiynol
- Weithiau nid yw'r cynllunio manwl yn mynd yn dda

Ystyriwyd bod **HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH AR ÔL MABWYSIADU** yn wael, yn arbennig:

- Cefnogaeth yn lleihau
- Cyrsiau ôl-leoli gwael yn cael eu cynnal ar adegau anghyfleus
- Cymorth ariannol anghyson
- Ansawdd, argaeledd a gwerthuso'r therapi



Byddwn yn parhau i wrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym. Diolch am ein helpu i ddeall eich barn

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn annog timau mabwysiadu i ddefnyddio'r model arfer gorau o gytuno ar gontract gyda mabwysiadwyr ar ddechrau asesiad fel bod pawb yn deall amserlenni ac ati.

Rydym wedi bod yn lobbio Llywodraeth Cymru i gyflwyno proses dau gam ar gyfer recriwtio ac asesu. Mae ymgynghoriad ar fin cychwyn, os cytunir arno, bydd yn egluro disgwyliadau ac amserlenni.

Rydym wedi adrodd yn ôl i dimau mabwysiadu ynghylch effaith dogfennau sy'n cael eu paratoi yn wael, a gofynnwyd iddynt edrych ar hyn. Mae timau mabwysiadu yn ymwylbodol o effaith newid staff; maent wedi ymrwymo i leihau cymaint ag y medrant ar hyn.

Rydym yn bwriadu adolygu'r hyfforddiant paratoi cyn-cymeradwyo. Eleni byddwn yn ystyried eich sylwadau ac yn eich cynnwys yn hyn.

Fe wnaethom ganolbwyntio ar drawsnewidiadau i blant yn ein cynhadledd staff diwethaf gan hyrwyddo arfer gorau.

Rydym yn bwriadu rhannu'r arfer da ar drawsnewid a amlygwyd gan un o'n rhanbarthau a'r cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.

Rydym wedi datblygu fframwaith i wella cymorth mabwysiadu ac rydym yn newid pethau'n raddol. Mae gwasanaethau mabwysiadu yn darparu mwy o gymorth mabwysiadu nag oeddent arfer ei wneud.

- Mae pob mabwysiadwr newydd yn cael aelodaeth blwyddyn am ddim gydag Adoption UK os ydynt yn dymuno
- Rydym wedi sicrhau bod mwy o wybodaeth a chyngor ar gael, yn cynnwys grwpiau cymorth
- Mae rhai aelodau staff y tim mabwysiadu bellach wedi'u hyfforddi mewn ymryniadau therapiwtig
- Erbyn hyn, mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth am gymorth mabwysiadu
- Yn y rhan helaeth o Gymru y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yw'r lle i gael cymorth erbyn hyn

Mae Adoption UK wedi lansio eu prosiect *1,000 Diwrnod Cynntaf* i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd trwy ddyddiau cynnar eu taith mabwysiadu.

Rydym wedi cyflwyno Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Lwfansau Ariannol. Mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r gyfraith sy'n caniatáu disgrisiwn lleol ond dylai pethau ddechrau dod yn fwy safonol.

Rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer y rheini sydd wedi cael eu cymeradwyo, a hynny i gynnwys gwybodaeth a chyrsiau mwy manwl. Rydym yn bwriadu ei defnyddio eleni.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud ac mae gennym gynllun parhaus sy'n cynnwys ceisio newid y fframwaith cyfreithiol a sicrhau mwy o adnoddau.

029 2087 3927



Newyddion gan dimau mabwysiadu ledled Cymru

Eleni, mynychodd gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru ddigwyddiadau Pride yn ne Cymru. Roedd yn gyfle gwych i siarad â'n mabwysiadwyr LGBT a mabwysiadwyr y dyfodol.

Cadwch lygad allan amdanom mewn mwy o ddigwyddiadau yn 2019.

Adoption UK Wales

adoptionuk.org

Rydym wedi cael blwyddyn brysur iawn yn darparu hyfforddiant i gannoedd o rieni sy'n mabwysiadu ar draws Cymru ar bynciau'n cynnwys: Gwaith Taith Bywyd, Ysgolion ac Addysg, magu plant sy'n arddangos ymddygiad treisgar, 'Therapy Maze' a'n cwrs rhianta therapiwtig chwe sesiwn o'r enw Rhianta Ein Plant a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru. Yn y chwarter olaf o 2018, fe wnaethom hyfforddi 159 o rieni sydd yn cefnogi 216 o blant rhyngddynt yn uniongyrchol yn ogystal â llawer o weithwyr cymdeithasol, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae ein llinell gymorth wedi cael 1,344 o gysylltiadau dros y flwyddyn – y prif bynciau y mae pobl yn galw amdanynt yw: ysgolion, ymddygiad, cyswllt â'r teulu biolegol a brodyr a chworydd, sut i ddechrau'r broses fabwysiadu ac ymddygiad heriol.

Ar hyn o bryd rydym yn hwyluso deg grŵp gymorth ar draws Cymru, gan gynnwys rhai ar gyfer mabwysiadwyr sengl, dad-cu mabwysiadol a neiniau a theidiau. Mae rhai grwpiau yn cyfarfod gyda'r nos a rhai yn ystod y dydd. Bydd dau grŵp newydd yn dechrau yn Ionawr 2019 - un

yn cyfarfod yn wythnosol ar gyfer rhieni gyda phlant oed meithrin ac un ar gyfer oedolion a gafodd eu mabwysiadu'n blant.

Mae ein prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf wedi darparu cymorth cynnar i deuluoedd mabwysiadol newydd ledled Cymru gydag aelodaeth o Adoption UK yn cael ei ddarparu am ddim am y flwyddyn gyntaf, hyfforddiant am ddim, taflenni ffeithiau a chyswllt parhaus â mabwysiadwyr mwy profiadol eraill.

Mae ein prosiect i fabwysiadwyr wedi cynnal fforymau mabwysiadu ym mhob un o'r rhanbarthau mabwysiadu gan ddarganfod gan fabwysiadwyr beth yw eu profiad o CAMHS, gwaith teithiau bywyd, cyswllt, addysg a chymorth mabwysiadu yn gyffredinol.

Mae gennym nifer o brosiectau newydd cyffrous ar y ffordd yn 2019 gyda'r nod o sicrhau bod gan bob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru deulu gyda'r gefnogaeth iawn o'u cwmpas i'w helpu i wella o'u profiadau cynnar a mynd ymlaen i fyw bywyd hapus ac iach.

AFA Cymru afacymru.org

Rydym yn falch o fod wedi cefnogi'r GMC y llynedd drwy ysgrifennu'r Fframwaith Gwaith Taith Bywyd (GTB) a'r Canllaw Arfer Da a datblygu pecynnau cymorth GTB i Ofalwyr Maeth, Mabwysiadwyr a Staff Gwaith Cymdeithasol / Cymorth. Cafodd y rhain ymateb cadarnhaol gan y gweithwyr Gofal Cymdeithasol proffesiynol, Mabwysiadwyr a Gofalwyr ar draws y Rhanbarthau eleni.

Os methoch yr hyfforddiant a gyflwynwyd yn eich rhanbarth chi, rydym yn cynnig gweithdai Gwaith Taith Bywyd yn swyddfeydd y gogledd a'r de ar ddechrau 2019.

Rydym wedi bod yn ymgynghori'n ddiweddar ar ddatblygu pecynnau cymorth pellach ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd Biolegol a Gweithwyr Proffesiynol Eraill.

Gwasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru (BCAFS) barnardos.org.uk/adoption

Yn gyntaf hoffem rannu newyddion da iawn – rydym wedi gweld cynnydd mewn ymholiadau mabwysiadu eleni ac rydym wedi trefnu grwpiau Paratoi ychwanegol i fodloni'r galw. Rydym hefyd yn croesawu gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu newydd i'n tîm.

Fel partner gweithredol yn Mabwysiadu Ynghyd, rydym wrthi'n treialu'r broses recriwtio plentyn-benodol gyntaf ar gyfer grŵp o ddau frawd/chwaer – mae swyddog cyfryngau Barnardo's Cymru yn gweithio gyda'r tîm a'r awdurdod lleol dan sylw i godi proffil y plant.

Ein nod yw estyn allan a derbyn ymholiadau gan ddarpar deuluoedd mabwysiadol sy'n teimlo y gallent gynnig cartref a theulu oes i'r plant. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n tîm

cyfryngau a marchnata canolog yn Barkingside i ddatblygu animeiddiad sy'n disgrifio'r prosiect ac sy'n proffilio'r plant sy'n aros hiraf ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru.

Rydym wedi cynyddu'r hyfforddiant rydym yn ei gynnig i fabwysiadwyr a darpar rieni mabwysiadol i adeiladu ar ddysgu o'r grwpiau paratoi, gyda ffocws ar ddulliau magu plant, gan hefyd gynyddu eu gwybodaeth am ddulliau ymlyniad gwahanol i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut mae bodloni anghenion eu plentyn i'w alluogi i deimlo'n ddiogel.

Fel asiantaeth ac ar ran ein rhieni mabwysiadol cymeradwy, hoffem ddiolch am ein haelodaeth barhaus o AdoptionUK.

Mabwysiadu Canolbarth a Gornllewin Cymru mabwysiaducgcymru.org.uk

Mae 2018 wedi bod yn flwyddyn gyffrous i fabwysiadwyr a staff. Dyma rai o'n huchafbwyntiau...

Mae ein gwefan wedi'i hail-lansio gydag animeiddiad sy'n chwalu mythau ynghylch pwy sy'n gallu mabwysiadu. Rydym hefyd wedi creu system ddiogel i fabwysiadwyr i gael mynediad at amrywiaeth eang o gyrsiau ac adnoddau hyfforddi, gan gynnwys ffilm o gyfweliadau gyda rhieni biolegol.

Gwnaethom gyflwyno amrywiaeth eang o hyfforddiant Ôl-Gymeradwyo, gan gynnwys cwrs PACE 6-sesiwn ar Rianta Therapiwtig, sydd wedi derbyn adborth gwych.



Mae'r broses o gyflwyno'r Fframwaith Taith Bywyd newydd wedi cael budd o waith brwdfrydig gweithiwr prosiect, sydd wedi'i gyflogi at un pwrpas: cefnogi mabwysiadwyr a staff i weithredu'r dull newydd hwn o ran gwaith Stori Bywyd.

Cawsom ddiwrnod "Syrffio a Thraeth" gwych ar draeth yn Sir Benfro, ac mae gennym grwpiau cymorth mabwysiadu llwyddiannus o hyd ym mhob un o'n pedair sir. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'n holl fabwysiadwyr sydd wedi helpu i gefnogi'r digwyddiadau hyn a chynnig eu safbwyntiau a'u syniadau eu hunain a fydd yn parhau i'n helpu i ddiweddarau a gwella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig.

I gael mwy o'r newyddion diweddaraf, dilynwch ni ar Twitter @adoptmw_wales

Mabwysiadu Gogledd Cymru

northwalesadoption.gov.uk/cy

Rydym wedi cael blwyddyn brysur iawn eleni gyda hyfforddiant, datblygiad a lansiad ein cynllun mentora cyfoedion newydd a chynnydd yn nifer y grwpiau cymorth mabwysiadu ledled y rhanbarthau.

Yn ogystal â rhaglenni hyfforddi newydd, gwnaethom gyflwyno 'Asesu Capasiti Emosiynol' i gefnogi staff gyda'u hasesiadau ac ar gyfer mabwysiadwyr.

Rydym hefyd wedi bod yn ffodus o gael gweithdy diwrnod o hyd i fabwysiadwyr ar gefnogi eu plant yn yr amgylchedd addysg gan Braveheart,

cwrs 6-sesiwn 'Parenting Our Children' gan AUK, a 'Healing children through therapeutic parenting' gan Sarah Naish. Mae pob un wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan fabwysiadwyr – felly diolch!

Ym mis Medi daeth llond lle o fabwysiadwyr a'u teuluoedd i'n Diwrnod Hwyl Blynyddol. Diolch am eich cefnogaeth ac am eich adborth cadarnhaol.

Gan edrych tua 2019, bydd ein swyddog hyfforddi'n cyflawni cyrsiau therapiwtig er mwyn cefnogi ein mabwysiadwyr ymhellach drwy ddarparu hyfforddiant.

SEWAS

www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/maethu-a-mabwysiadu/mabwysiadu-a-phlant-syn-derbyn-gofal

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall gyda digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi amrywiol i deuluoedd yn ogystal â ni'r gweithwyr.

Ond yn bwysicaf oll, rydym wedi bod yn brysur yn cefnogi llawer o deuluoedd a phlant drwy eu taith fabwysiadu.

Fel gwasanaeth rydym yn ymrwymedig i ddeall effaith trawma cynnar ac i feddwl gyda theuluoedd am anghenion y plant o safbwynt therapiwtig. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 DDP a Safe Base erbyn hyn, gan ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu ym mhob agwedd ar y daith fabwysiadu i gefnogi plant a'u teuluoedd yn well.

Rydym yn parhau i geisio barn ein teuluoedd ac rydym wedi cwrdd â nifer o rieni i drafod gwelliannau i'n gwasanaethau.

Gan wrando ar farn rhieni mabwysiadol, rydym wedi datblygu cyrsiau hyfforddi newydd i ddarpar fabwysiadwyr sydd ar y cam asesu, 'Gweithdy Teulu a Ffrindiau' a 'Hyfforddiant i Fabwysiadwyr Eildro'. Hefyd, mae gennym bellach gwrs hyfforddi undydd i ofalwyr maeth sydd

eisiau mabwysiadu sy'n cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp cymorth newydd i rieni sydd â phlant dros 10 oed ac yn parhau â'n Boreau Coffi mewn lleoliadau amrywiol ledled Gwent.

Roedd yn hyfryd cwrdd â rhai o'n rhieni a'n plant yn ein Diwrnod Hwyl dros yr haf. Er gwaetha'r glaw, daeth llawer o bobl draw! Rydym yn gobeithio cynnal digwyddiad tebyg yn 2019.

Mae chwe digwyddiad gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer 2019 i'r rheini sy'n ystyried mabwysiadu. Galwch draw i siarad â'n gweithwyr cymdeithasol am y plant sy'n aros ar hyn o bryd, ynghyd ag unrhyw bryderon neu gwestiynau eraill a allai fod gennych. Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi ar y dyddiadau canlynol:

15 Ionawr 6-8pm, 9 Mawrth 10am-12pm, 13 Mai 6-8pm, 6 Gorffennaf 10am-12pm, 10 Medi 6-8pm, 2 Tachwedd 10am-12pm. Rhaid cadw lle felly e-bostiwch ni yn adoption@blaenau-gwent.gov.uk neu ffoniwch 01495 355766 os oes gennych ddi-ddordeb.

Cymdeithas Plant Dewi Sant adoptionwales.org

Eleni, gwnaeth ein Prif Swyddog Gweithredol, Gerry Cooney, ymddeol wedi amser maith gyda'r sefydliad. I'r rheini sy'n gweithio yn y sector mabwysiadu, mae enw Gerry wedi dod law yn llaw ag enw'r Gymdeithas ers blynyddoedd lawer. Ffocws Gerry bob amser oedd y plant a'u hawl i fywyd teuluol. Dan ei arweinyddiaeth mae 700 o blant wedi'u lleoli gyda'r Gymdeithas. Mae ei etifeddiaeth, felly, heb ei hail.

Mae Wendy Keidan wedi'i phenodi'n Brif Swyddog Gweithredol newydd Dewi Sant. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad yn y sector. Mae Wendy, a fu'n gyfarwyddwr ar BAAF Cymru yn flaenorol, wedi bod yn Ddirprwy Gyfarwyddwr ar Gymdeithas Plant Dewi Sant ers 2015 gan arwain dyluniad y prosiect arloesol Mabwysiadu Ynghyd.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i wahodd yr holl fabwysiadwr a'u plant sydd wedi cael eu Hadolygiad Pwynt Canol i'n Grwpiau Cymorth chwarterol.

Mae'r grŵp yn cwrdd ar ddydd Sadwrn, a cheir sgwrs gan fabwysiadwr ar bwnc perthnasol. Rydym yn cynnig cyfleusterau crèche i blant a chinio cymdeithasol y mae pawb yn ei fwynhau'n fawr.

Rydym hefyd yn cynnal pum gweithdy i ddarpar fabwysiadwyr cyn lleoliad sy'n ymwneud â'r pynciau canlynol: Adroddiad Darpar Fabwysiadwyr, Brodyr a Chworydd, Teulu a Ffrindiau, Cysylltu a Chyflwyniadau a Siarad â Phlant am Fabwysiadu.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi.



Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

adopt4vvc.org/cy/Home/Home.aspx

Mae yna rai uchafbwyntiau gwych wedi bod yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn 2018.

Diolch o galon i bawb a ddaeth i'r diwrnodau hwyl i'r teulu. Mae ein partion yn gyfle gwych i blant mabwysiedig a rhieni mabwysiadol gwrdd a rhannu profiadau. Rydyn ni hefyd yn dwlu ar y diwrnodau hyn oherwydd rydyn ni'n cael gweld plant yn cael eu magu yn rhan o'r teuluoedd y gwnaethom eu paru â nhw.

Ar gyfer Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol 2018, gwnaethom ryddhau cyfres o'r enw 'Dod yn Rhieni' sy'n tynnu sylw at y broses fabwysiadu drwy lygaid sawl un o'n mabwysiadwyr. Mae'r gyfres yn fyw ar ein gwefan: www.adopt4vvc.org/en/Videos-and-Series neu ar ein sianel YouTube newydd @valeyvalleysandcardiffadoption. Diolch i Philipa, Ross, Michael, Gareth a Claire am gymryd rhan!

Rydyn ni wrthi'n diweddarau ein gwefan i gynnwys straeon mabwysiadwyr ac argymhellion o ran llyfrau, cyfresi a flogs sy'n ysbrydoli a thywys pobl drwy'r broses fabwysiadu. Os ydych wedi darllen llyfr da / gwyllo rhywbeth diddorol sy'n ymwneud â

mabwysiadu, neu os hoffech rannu eich stori fabwysiadu bersonol eich hun, cysylltwch â'n Swyddog Marchnata, Natalie, ar 01446 706152.

Rydyn ni nawr wedi ymgartrefu yn ein cartref newydd yn y Barri. Roedd y symud yn gyfnod o newid sylweddol. Hoffem ddiolch i'n holl fabwysiadwyr am eu dealltwriaeth.

Yn olaf, rydym eisiau sicrhau bod ein holl blant yn dod o hyd i gartrefi. Un o'r ffyrdd gorau o ledaenu'r neges yw ar lafar, ac rydym yn gwerthfawrogi eich argymhellion cadarnhaol yn fawr. Gofynnwn i chi barhau i'n hargymell i ffrindiau a chydweithwyr sydd â diddordeb mewn mabwysiadu.



Bae'r Gorllewin

westernbayadoption.org/cy/hafan

Hoffem ddiolch i'n holl fabwysiadwyr am eu cymorth a'u help sylweddol gyda nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf.

O'n dathliad blynyddol i fabwysiadwyr a phlant a'n gwefan newydd sbon i ddatblygiad parhaus y gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Mae eich cymorth yn hanfodol.

Mae barn ac adborth y mabwysiadwyr wedi ein helpu i ddatblygu deunyddiau hawdd eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant, canllawiau a gweithdai Fframwaith Taith Bywyd, creu dau grŵp cymorth newydd sy'n dod â mabwysiadwyr newydd a hirdymor ynghyd, a lleoli mwy o blant yn ein digwyddiadau proffilio.

Diolch hefyd i'n gweithwyr cymdeithasol am ddod i'n gweithdai ac am eich brwdfrydedd yn cefnogi mabwysiadwyr i ymgysylltu'n weithredol â'r Fframwaith Taith Bywyd.

Y newyddion mawr yn 2018 oedd lansiad ein gwefan newydd. Mae bellach yn fyw ac yn cynnwys llawer o adnoddau newydd a phroses ymholi well. Mae ardal aelodau newydd ar y gweill hefyd, felly cadwch lygad allan amdani, ynghyd â'n holl ddigwyddiadau cymorth a phroffilio.

Yn goron ar y cyfan, mae staff Bae'r Gorllewin wedi bod yn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen drwy werthu cacennau yn y swyddfa.



Diolch o galon,
oddi wrth bawb
yn y Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol.

Nadolig llawen
i chi i gyd!



Gwasanaeth
Mabwysiadu | National
Cenedlaethol | **Adoption**
Service

Achieving More Together /
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd